**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Bodedern a gynhaliwyd ym Mro'r Ysgol am 7:00**

**25 Medi 2023**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Croeso a derbyn ymddiheuriadau**<br>Yn absenoldeb y clerc Mrs Rhian Richards cytunodd y cadeirydd i gymryd y cofnodion a'r is –gadeirydd Dr Edward Jones yn cymryd y gadair. Croesawodd bawb i'r cyfarfod yn enwedig Mr Osian Jones gan mai dyma ei gyfarfod cyntaf. | **Gweithred** |
| | Llongyfarchwyd Mrs Linda Jones ar gael ei hethol yn flaenores yng Nghapel Tyn y Maen. | |
| 2 | **Presennol**<br>EJ (Cadeirydd), JF, OJ, VO, RJ, LJ, BH, AR (clerc), Cynghorwyr GJ, KT<br><br>**Ymddiheuriadau**<br>RR, AP | |
| 3 | **Datgan Diddordeb**<br>KT – Eitem 6 | |
| 4 | **Cofnodion 24 Gorffennaf 2023**<br>Cywiro rhif 8 – Taliadau i'w gwneud<br>Talu am drwsio y parc i Rhion Jones ac nid Gwilym Taylor.<br><br>Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir gan JF ac eiliwyd gan VO. | |
| | **Materion yn codi o'r cofnodion**<br>Rhif 5.2 – Trafodwyd ymateb Rhun ap Iorwerth i'r enwau tai Cymraeg sydd wedi eu newid.<br><br>Rhif 5.3 – Nodwyd bod y glaswellt wedi ei dorri lle oedd yr hen focs teliffon a bod coeden wedi ei thorri ym Mro'r Ysgol ond roedd nifer o lefydd eraill yn parhau heb eu torri e.e. o flaen siop Sabi, tu ôl i Tŷ Croes, cefn Bro Dawel, llwybr at y maes chwarae. | Yr aelodau i anfon ebost efo enwau tai Cymraeg sydd wedi eu newid i'r clerc fel y gall eu hanfon ymlaen i Rhun ap Iorwerth.<br><br>Cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn iddynt ddod i dorri y glaswellt. |
| | Clwyd Alun yn mynegi nad oes arian ar gael tuag at gymorth i glirio cefn y fynwent gan eu bod yn rhoi £5,557.94 tuag at gostau offer i'r maes chwarae ond efallai y byddai DU Construction yn gallu helpu efo amser/llafur. Heb glywed dim gan Clwyd Alun na DU Construction o ran cyfarfod yn y fynwent eto. | Cysylltu a Mark Blackwell o DU Construction i ofyn os gall o helpu efo costau y fynwent. |

| | | |
|---|---|---|
| | Cerbydau yn cael eu trin yn Stryd Wesla – CSYM heb ymweld eto. | |
| | Cysylltu efo Rhian Richards y clerc i ofyn os ydy hi wedi cael arwyddion baw ci. | Cysylltu â'r clerc. |
| 5 | **Deddf Cynllunio a gwlad (Manylion llawn ar gael ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn)**<br><br>Roedd 3 cais gerbron:-<br>1) Cymunod, Bodedern – Cais llawn ar gyfer newid defnydd tir yn safle carafanau gwyliau teithiol tymhorol – **dim gwrthwynebiad**<br>2) Cartio Môn, Bodedern – Cais i newid defnydd o amser i agor drwy'r flwyddyn – **dim gwrthwynebiad**<br>3) Erwnel, Bodedern – Cais llawn i greu mynedfa amaethyddol – **dim gwrthwynebiad** | Anfon at Adran Cynllunio i fynegi nad oes gwrthwynebiad i'r ceisiadau. |
| 6 | **Gohebiaeth**<br>Dim | |
| 7 | **Taliadau**<br>Humphreys Waste – gwagio bin y parc x 3 - £86.40. **Pasiwyd i'w dalu** | Anfon siec i Humphreys Waste |
| | G L Jones – tynnu swing 'Birds Nest' o'r parc am ei bod wedi torri - £168. **Pasiwyd i'w dalu** | Anfon siec i G L Jones |
| | G L Jones – trwsio swing 'Birds Nest' yn y parc - £1,158. Penderfynwyd cysylltu â Ffrindiau Bodedern Friends i ofyn os oes yna warant ar yr offer a pryd mae yn dod i ben.<br>**Os ydy'r warant wedi gorffen pasiwyd i'w dalu.** | Cysylltu â Ffrindiau Bodedern Friends.<br>Anfon siec I G L Jones os ydy'r warant wedi gorffen. |
| | G L Jones – tynnu sleid, see saw, springer see saw cloi/clymu 1.8 cradle swing, 2.4 swing 4 sedd er mwyn eu gwneud yn saff a hynny ar frys - £1,194. **Pasiwyd i'w dalu** | Anfon siec i G L Jones |
| 8 | **Eitemau a ddaeth i sylw'r cyngor gan y cynghorwyr:-**<br><br>**Torri glaswellt yn y fynwent** – mynegwyd nad oedd y glaswellt yn cael ei dorri yn ddigon isel yn y fynwent. Penderfynwyd cysylltu â Leigh Thomas i gael sgwrs gydag ef ynglŷn â'r sefyllfa. | Cysylltu â Leigh Thomas sydd yn torri'r fynwent. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Bysus** – mynegwyd nad oes safle bws yn Dalar. Gyda'r newidiadau efo'r bysus does yna ddim bws yn mynd i Langefni o Bodedern rwan ond mae bws yn dod o'r Llu Awyr i Langefni ond does unman yn Dalar i aros amdani.<br>Penderfynwyd ysgrifennu at Lee Waters ynglŷn â'r sefyllfa. | Ysgrifennu at Lee Waters. |
| | Mynegodd y cadeirydd ei bod wedi anfon ebost at Huw Percy ynglŷn â'r sefyllfa bysus ym Modedern. Darllenodd yr ymateb a gafodd gan Iwan Cadwaladr. Copi o'r ebost a anfonodd y cadeirydd I'w rannu gyda'r cynghorwyr er mwyn iddynt ychwanegu sylwadau pellach. | Ysgrifennu at Lee Waters. |
| | **Llwybrau Cyhoeddus** – rhai o'r llwybrau cyhoeddus o amgylch y pentref wedi cau. Cysylltu ag Arwel Evans o'r Cyngor Sir am fap o'r llwybrau a gofyn os oes modd clirio rhai ohonynt. | Ysgrifennu at Arwel Evans. |
| | **Hen Siop Bapur** – gan fod y siop wedi ei thynnu lawr a'i bod bellach yn ddolur llygaid ynghanol y pentref cytunwyd i gysylltu â'r perchennog i ofyn a fyddai modd bordio y ffrynt, Mae hi yn beryg i'r cyhoedd ac mae cyfrifoldeb arnynt i sicrhau bod y safle yn saff. Mynegwyd hefyd bod llygod mawr yno. | Cysylltu a'r perchennog. |
| | **Ystad newydd ar dir Treangharad** – roedd Clwyd Alun yn awyddus i dderbyn enw ar gyfer yr ystad newydd. Roedd tri enw wedi ei roi gerbron eisioes sef Maes Gwerfyl, Erw Gwerfyl, Caeau Gleision ac ychwanegwyd Rhandir Gwerfyl. Penderfynwyd ar Erw Gwerfyl. Anfonir yr enw ymlaen at Helen o Clwyd Alun. | Bethan Hughes am gysylltu â Helen o Clwyd Alun. |
| | **Facebook i'r Cyngor** – yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio cael tudalen facebook i'r cyngor ar hyn o bryd. | |
| | **Cyflymder o 40 mya o Dalar i Bodedern** – rydym eisioes wedi trafod y mater hwn gydag ymateb o'r Cyngor Sir i ail gysylltu pan fo'r cyngor wedi gorffen trefniadau efo'r 20 mya. Penderfynwyd cysylltu ag Alun Roberts o'r Cyngor Sir unwaith eto. | Cysylltu ag Alun Roberts. |
| | **Arwydd wrth Dalar wedi torri** – Gwilym Jones wedi cysylltu â'r Cyngor Sir yn barod. Penderfynwyd anfon at Alun Roberts i'w atgoffa. | Anfon at Alun Roberts. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Arwydd 20 mya wrth y garej** – mae gwrychyn yn cuddio yr arwydd 20 mya ar yr ochr dde fel yr ydych yn dod i mewn I'r pentref o'r A55. Pasiwyd i anfon at Alun Roberts. | Anfon at Alun Roberts. |
| | **Tywyn Trewan** – hysbyswyd yr aelodau y bydd cyfarfod o'r bwrdd yn fuan. | |
| | **Clerc yn ystod cyfnod mamolaeth** – penderfynwyd cysylltu â Rhian Richards i ofyn os ydy hi gyda rhywun y gall gamu fewn yn ystod ei chyfnod mamolaeth. | Anfon at Rhian Richards. |
| 9 | **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Dydd Llun, 23 Hydref 2023 | |